# Do you need a TV Licence?

## You need to be covered by a TV Licence to:

TV LICENSING

tvlicensing.co.uk

**a)** watch or record live TV programmes on any channel, and
**b)** download or watch BBC programmes on iPlayer.

This could be on any device, including a TV, desktop computer, laptop, mobile phone, tablet, games console, digital box or DVD/VHS recorder.

If you do any of the above without a valid licence, you risk prosecution and a maximum penalty of up to £1,000, plus any legal costs and/or compensation you may be ordered to pay. You will also still have to buy a TV Licence if you need one.

To find out more, go to **tvlicensing.co.uk/info**

**Please see 'How to buy a TV Licence' below for different ways to pay.**

## Only watching non-UK satellite programmes?

You still need a licence, even if you only watch or record programmes broadcast from outside the UK.

## Moved home recently?

If you have moved home and have a licence for your old address, please tell us by visiting **tvlicensing.co.uk/moving** or by calling 0300 790 6044.

## Don't need a licence?

You don't need a TV Licence if you never watch or record live TV programmes on any channel or device, and never download or watch BBC programmes on iPlayer.

Please tell us you don't need a licence by going to **tvlicensing.co.uk/noTV**, calling 0300 790 6044 or writing to Customer Services,
TV Licensing,
Darlington DL98 1TL.
We may confirm this with a visit.

If you have sight problems, you can get this information by email or in Braille, large print or audio by calling 0300 790 6076.

If you are deaf, hard of hearing or speech impaired, we support the Next Generation Text (NGT) Service. For more information see **tvlicensing.co.uk/accessibility**

## How to buy a TV Licence.

A colour TV Licence costs £159.00 (£53.50 for a black and white licence). There are lots of different ways to pay – choose the one that suits you best:

**PayPoint** – you can pay for a TV Licence by cash or debit card. Find your nearest outlet at **paypoint.com/locator** or if you live in the Channel Islands or Isle of Man, you can visit your local post office.

**TV Licensing payment card** – you can pay for your TV Licence weekly with payments from £6.00. Please call **0300 555 3456**.

**Credit/debit card** – you can make a single payment with a debit or credit card, including Maestro, Delta, Visa, Visa Electron or MasterCard. Pay online at **tvlicensing.co.uk/payinfo** or call 0300 790 6044.

**Direct Debit** – you can spread the cost of your licence by choosing from our range of Direct Debit options. Find out more at **tvlicensing.co.uk/payinfo** or call 0300 790 6044.

**By post** – send a cheque for the full TV Licence fee payable to 'TV Licensing', writing your name, address and postcode clearly on the back of the cheque. Send it to TV Licensing, Darlington DL98 1TL. Please do not send cash.

## Could you get a concession?

**Are you, or is someone you live with:**

- **Aged 75 or older, and receiving Pension Credit?** You can apply for a free TV Licence. You need to be receiving Pension Credit in your name, or this can be in your partner's name if you are a couple and living at the same address.
  **74 years old and receiving Pension Credit?** You can apply for a free TV Licence now, plus a short-term licence to cover you until your 75th birthday.
  If you live in the Channel Islands or Isle of Man, different conditions may apply.
- **Blind (severely sight impaired)?** You may be eligible to apply for a 50% concession. You can complete and print out an online application form at **tvlicensing.co.uk/blind** and send it to us along with a copy of your document of blind registration or a certificate from your ophthalmologist. You'll also need your licence number, phone number and cheque payment. Please post to TV Licensing, Blind Concession Group, Darlington DL98 1TL.

For more information on concessions, go to **tvlicensing.co.uk/concessions** or call **0300 790 6044**.

We welcome your calls, emails and letters in Welsh, and will respond to you in Welsh. Response times are the same for Welsh and English. Visit **tvlicensing.co.uk/cymraeg**

LFAQ/SLT/04/21/WE Updated 04/21

# A oes arnoch angen Trwydded Deledu?

## Mae arnoch angen Trwydded Deledu i:

**a)** wylio neu recordio rhaglenni teledu byw ar unrhyw sianel, a
**b)** lawrlwytho neu wylio rhaglenni'r BBC ar iPlayer.

Gallai hyn fod ar unrhyw ddyfais, gan gynnwys teledu, cyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur, ffôn symudol, tabled, consol gemau, bocs digidol neu beiriant recordio DVD/VHS.

Os ydych yn gwneud unrhyw rai o'r uchod heb drwydded ddilys, rydych yn mentro cael eich erlyn a dirwy o hyd at £1,000, ynghyd ag unrhyw gostau cyfreithiol a/neu iawndal y gallech gael eich gorchymyn i'w talu. Bydd raid i chi brynu Trwydded Deledu o hyd os oes arnoch angen un.

I gael gwybod mwy, ewch i **tvlicensing.co.uk/info**

**Darllenwch 'Sut i brynu Trwydded Deledu' isod am wahanol ffyrdd o dalu.**

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU
tvlicensing.co.uk

## Dim ond yn gwylio rhaglenni lloeren o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig?

Mae arnoch angen trwydded o hyd, hyd yn oed os ydych ond yn gwylio neu'n recordio rhaglenni sy'n cael eu darlledu o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.

## Wedi symud tŷ yn ddiweddar?

Os ydych wedi symud tŷ a bod gennych drwydded ar gyfer eich hen gyfeiriad, rhowch wybod i ni trwy fynd i **tvlicensing.co.uk/moving** neu drwy ffonio 0300 790 6042.

## Ddim angen trwydded?

Does arnoch ddim angen Trwydded Deledu os na fyddwch byth yn gwylio neu'n recordio rhaglenni teledu byw ar unrhyw sianel neu ddyfais, ac na fyddwch byth yn lawrlwytho neu'n gwylio rhaglenni'r BBC ar iPlayer.

Rhowch wybod i ni nad oes arnoch angen trwydded trwy fynd i **tvlicensing.co.uk/noTV**, ffonio 0300 790 6042 neu ysgrifennu at Customer Services, TV Licensing, Darlington DL98 1TL. Gallwn ymweld i gadarnhau hyn.

Os oes gennych broblemau gyda'ch golwg, mae'r wybodaeth yma ar gael trwy e-bost neu mewn Braille, print bras neu sain trwy ffonio 0300 790 6076.

Os ydych yn fyddar, yn drwm eich clyw neu â nam ar eich lleferydd, rydym yn cefnogi Gwasanaeth Testun y Genhedlaeth Nesaf (NGT). I gael mwy o wybodaeth edrychwch ar **tvlicensing.co.uk/accessibility**

## Sut i brynu Trwydded Deledu.

Mae Trwydded Deledu lliw yn costio £159.00 (£53.50 ar gyfer trwydded du a gwyn). Mae yna lawer o wahanol ffyrdd o dalu – dewiswch yr un sydd fwyaf addas i chi:

**PayPoint** – gallwch dalu am Drwydded Deledu gydag arian parod neu gerdyn debyd. Gallwch ddod o hyd i'ch safle agosaf yn **paypoint.com/locator**

**Cerdyn talu Trwyddedu Teledu** – gallwch dalu am eich Trwydded Deledu bob wythnos gyda thaliadau o £6.00. Ffoniwch **0300 555 0288.**

**Cerdyn credyd/debyd** – gallwch wneud taliad unigol gyda cherdyn debyd neu gredyd, gan gynnwys Maestro, Delta, Visa, Visa Electron neu MasterCard. Talwch ar lein yn **tvlicensing.co.uk/payinfo** neu ffoniwch 0300 790 6042.

**Debyd Uniongyrchol** – gallwch rannu cost eich trwydded trwy ddewis o blith amryw o opsiynau Debyd Uniongyrchol. Cewch wybod mwy yn **tvlicensing.co.uk/payinfo** neu ffoniwch 0300 790 6042.

**Trwy'r post** – anfonwch siec am ffi lawn y Drwydded Deledu yn daladwy i 'Trwyddedu Teledu', gan ysgrifennu eich enw, cyfeiriad a chôd post yn glir ar gefn y siec. Anfonwch hi at TV Licensing, Darlington DL98 1TL. Peidiwch ag anfon arian parod.

## Allech chi gael consesiwn?

**A ydych chi, neu a oes rhywun rydych yn byw gyda nhw:**

- **Yn 75 mlwydd oed neu drosodd, ac yn derbyn Credyd Pensiwn?** Gallwch wneud cais am Drwydded Deledu am ddim. Bydd angen i chi fod yn derbyn Credyd Pensiwn yn eich enw chi, neu gall hyn fod yn enw eich partner os ydych yn gwpl ac yn byw yn yr un cyfeiriad.

  **Yn 74 mlwydd oed ac yn derbyn Credyd Pensiwn?** Gallwch wneud cais am Drwydded Deledu am ddim nawr, ynghyd â thrwydded tymor byr i'ch trwyddedu tan eich pen-blwydd yn 75.
- **Yn ddall (â nam difrifol ar eich golwg)?** Gallech fod yn gymwys i wneud cais am gonsesiwn o 50%. Gallwch gwblhau ac argraffu ffurflen gais ar lein yn **tvlicensing.co.uk/blind** a'i hanfon atom ynghyd â chopi o'ch dogfen cofrestru'n ddall neu dystysgrif gan eich offthalmolegydd. Bydd arnoch angen rhif eich trwydded hefyd, rhif ffôn a thaliad trwy siec. Postiwch y siec at TV Licensing, Blind Concession Group, Darlington DL98 1TL.

I gael gwybod mwy am gonsesiynau, ewch i **tvlicensing.co.uk/concessions** neu ffoniwch **0300 790 6042**.

Rydym yn croesawu eich galwadau, e-byst a llythyrau yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg. Mae'r amseroedd ymateb yr un fath ar gyfer Cymraeg a Saesneg. Ewch i **tvlicensing.co.uk/cymraeg**

LFAQ/SLT/04/21/WE Diweddarwyd 04/21